

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 12fed o Ebrill 2016.

1. **Preseanol:** OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts - Llanllyfni; Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Peter Thomas - Talysarn; Ffion Jones - Nantlle; Nerys Williams, Barry Bracegirdle, Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir) - Penygroes; Eurig Wyn Evans - Nebo / **Ymddiheuriadau:** Sharon Wynne Jones - Talysarn; Iwan Lloyd Williams, Mark Balaam - Penygroes; Craig ab Iago - Cynghorydd Sir.
 2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Eurig Wyn Evans - cais cynllunio Poveys.
 3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mawrth.** Barry yn datgan cywirdeb y cofnodion, a Gwyndaf yn eilio. Pawb yn cytuno.
 4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Harry wedi cynnig symud cyfoarfodydd misol y Cyngor i festri capel Soar oherwydd y problem diffyg parcio wrth y Neuadd Goffa. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau, a pwyllgor y capel wedi cytuno i'r cyfarfodydd gael eu cynnal yno. Barry yn cynnig symud lleoliad o hyn ymlaen, pawb yn cytuno.
Diweddariad caban ar gyfer yr ieuenctid - OP yn adrodd bod cynllun yng Nghaergybi a Llangefni (Heddlu yn trefnu) wedi bod yn llwyddiannus, a bod trafferthion wedi gostwng o ganlyniad; Llechi llochesi bws Penygroes a Nebo - angen cysylltu efo Ifan ac Idris i'w atgoffa i drwsio'r toeau.
 5. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio** - Adrodd yn ol i'r Cyngor. Cyfarfod ar y cyd - cydweithio - dim llawer o bobl wedi mynychu'r cyfarfod. Llandwrog wedi cytuno i gydweithio. Angen sefydlu grwp o bob Cyngor i gyfarfod i drafod. Cyngor Llanwnda yn trafod nos Fercher. Bydd angen dewis is-bwyllgor i fynychu ar ran Cyngor Cymuned Llanllyfni, gyda'r dealltwriaeth fod dim hawl gan y gweithgor i weithredu, a'u bod i adrodd yn ol i gyfarfod llawn y Cyngor. **Mark** yn awyddus if od yn rhan o'r gweithgor, **Gwyndaf, Barry ac OP Huws.** Y Clerc i fynychu'r cyfarfod cyntaf i gymryd cofnodion. Ateb ebost a dderbyniwyd gan Jiwn Jones i'w hysbysu nad yw'r Cyngor hwn wedi dod i unrhyw benderfyniad eto ynglyn a'r blychau halen
- Cyfarfod Is-bwyllgor mynwentydd** Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod. Pwyntiau a godwyd : chwyn - gofyn i'r contractwyr os ydynt yn gymwys i drin chwyn, neu os oes trefniadau mewn llaw i dderbyn y dystysgrif angenrheidiol; Niferoedd beddi newydd Gorphwysfa - y Clerc wedi edrych yn y cofrestr - 15 bedd newydd yn y 5 mlynedd ddiwethaf, a 34 bedd newydd yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Cynghorwyr Llanllyfni yn bryderus fod y fynwent yn llenwi, ac nad oes llawer o le ar ol. Gofynwyd i'r Clerc holi a dechrau'r broese i geisio prynu darn o gae i ehangu'r fynwent. Gofynwyd iddi ysgrifennu at berchennog y tir sy'n ffinio ar ochr isaf y fynwent i ofyn am gydweithrediad. (JE Jones, Hendre Forion); Goleuadau Nadolig - yr rhain yn parhau heb eu tynnu, er fod y goeden Nadolig wedi ei thynnu i lawr bellach. Cysylltu efo'r trydanwr un waith eto, ac edrych ar y gytundeb;
- Cynhaliwyd cyfarfod safle ym mynwent MacPelah i drafod y cam nesaf. Bu'n gyfarfod da iawn, a cafodd y ffordd newydd yn y fynwent ei mesur a'i marcio allan. Bydd angen hysbysu ar gyfer y gwaith o wneud y ffordd - manylion gan Mark; Weiran bigog ar ben uchaf y ffens yn MacPelah ar hyn o bryd, Gwyndaf yn awgrymu rhoi weiren lefn yn cael ei rhoi ar yr ochr fewn iddi - derbyn.
6. **Cynllunio** C16/0111/22/LL - Garej Poveys - adeiladu adeilad newydd ar gyfer gwasanaeth MOT ynghyd a chodi ffens diogelwch 2m o uchder. **Cymeradwyo.**
 7. **Gohebiaeth.**

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion - materion ailgylchu - cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r biniau ailgylchu yn Talysarn; ysbwriel lloches bws Penygroes - y lloches wedi ei glanhau, ond mwy o ysbwriel wedi ei adael yno wedyn; mainc Llanllyfni - Cyngor Gwynedd yn datgan nad hwy y'r perchnogion. Aelodau Llanllyfni am edrych os oes posib i'w thrwsio; arwydd llwybr Talysarn - trafferthion yn parhau - cysylltu eto, a chopi i Dilwyn Lloyd; twll Lon Ddwr - y twll yn derbyn sylw Cyngor Gwynedd; tipio Nebo - wedi ei glirio; golau stryd Penygroes - y gwyn wedi ei chofnodi - gofyn am gyfarfod safle gyda Colin Worth, gan fod y lamp hon mewn lleoliad allweddol yn y pentref; Angen atgoffa Cyngor Gwynedd o gais y Cyngor Cymuned i newid y drefn glanhau pentref i ddydd Llun/Mawrth - ebost i holi beth yw'r diweddara (Steffan Cyngor Gwynedd).

*Cymorthfa defnyddwyr bws 12/4/16. Neb wedi mynychu, ond Aelod Nebo yn datgan fod trafodaethau wedi bod rhwng pentrefwyr Nebo a swyddogion Cyngor Gwynedd yn barod ynglyn a'r gwasanaeth bws

*Deddf Trafnidiaeth - gwaharddiad trwodd dros dro Nasareth. Y gwaith wedi ei gwblhau, a'r ffordd bellach wedi ail-agor.

*Cronfa Bensiwn Gwynedd - cyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwr 2016-17. Aros yr un fath (er gwybodaeth).

*Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Arolygwyr Annibynnol / Fersiwn Adnau. Er gwybodaeth. Manylion y ddau arolygwr.

Arall

*Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Rhoddwyd yr ohebiaeth i aelod Nantlle.

*Alun Ffred Jones - llythyr o ddiolch a dymuniadau da. Y Cyngor Cymuned yn diolch am ei wasanaeth dros y blynyddoedd, ac yn dymuno yn dda iddo yn y dyfodol.

*Alun Ffred Jones - parcio Ffordd Haearn Bach. Trafodwyd, a'r farn oedd mai'r unig ffordd ymlaen fyddai i gael llinellau melyn. Serch hynny, roedd Martin (Talysarn) yn datgan fod polyn trydan yn rhwystr arall i ambiwlans basio, a bod y wal i'r cae yn fregus hefyd. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i holi os oes modd iddynt i asesu risg mewn perthynas a pharcio ceir ar y lon yma yn creu rhwystr i'r gwasanaeth tan ac ambiwlans. Ymateb i Alun Ffred fod Iwan wedi bod mewn cyfarfod safle efo swyddogion eisioes i weld os oedd posib cael datrysiaid i'r broblem, ac yn anffodus heb gael ymateb gadarnhaol i'r cais.

*Ebst trosglwyddo asedau. Er gwybodaeth.

*Cais am fainc ym mynwent Llanllyfni. Does dim polisi gan y Cyngor i roi meinciau yn y mynwentydd, ond byddwn yn croesawu unrhyw gais gan deuluoedd i roi mainc er cof am berthnasau.

*Chwarae Dros Gymru - cylchgrawn. Ar y bwrdd.

8. **Cofeb RWilliams Parry.** Darllenwyd yr ymatebion. Ddim yn gadarnhaol. Nerys am wneud ymholiadau lleol i drïo cael mwy o wybodaeth.

9. **Goleuadau Nadolig.** Y goleuadau dal i fyny. Edrych ar y gytundeb.

10. **Materion Pentrefi.** Talysarn Ysbwriel tu ol i fyngalos Gloddfa Glai - meicrodon, plastigion ac yn y blaen - pryder fod y lleoliad yma yn rywle sydd yn mynd i gael problem barhaus os nad yw'r sefyllfa yn cael ei datrys o'r cychwyn. Aelod Nebo yn datgan fod y pentrefwyr yn Nebo wedi cysylltu efo swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd (Steffan Neal) i gael offer hel ysbwriel a bagiau du, a bod grwp o drigolion a Chynghorydd Nebo am fynd ati i dacluso'r pentref; Bro Silyn - er bod lle parcio newydd wedi ei greu, mae ceir yn parhau i gael eu parcio wrth eu gilydd ar y ffordd, a ddim yn y maes parcio - lorïau yn methu pasio - ysgrifennu at Cartrefi Cymunedol i'w hysysu o'r gwyn. Rhwystr i ambiwlans/brigad dan.

Llanllyfni Coed ar Bont Crychddwr wedi eu torri neu tynnu, a hoelion a sgrïws yn sticio i fyny.

Nantlle Tyfiant ar lon Tai Nantlle am chwarel Dorothea ble mae y biniau gwyrdd yn cael eu rhoi. O ganlyniad mae'r biniau gwyrdd yn cael eu gwthio yn bellach i ganol y lon; Y lle troi'n ol cyn mynediad am Dorothea wrth y garejes bach - y lon wedi mynd yn is. Holi os yw'r tir yn berchen ar y Cyngor. O ganlyniad, mae cerbydau yn troi ym mynedfa Bryn Deulyn.

Penygroes Tyllau yn Trem yr Wyddfa rhwng 56 a 57. Dau gulley angen sylw ac yn beryglus i rywun efo beic neu gerddwyr - 28 a 57; Cyflwr wyneb y ffordd ar y sgwar yn annerbynniol.

11. **Llwybrau a Mynwentydd.** Niferoedd beddi newydd Gorphwysfa. (eitem 5). Rhoddwyd caniatad y Cyngor i Harry Wyn Owen ac Iwan Lloyd Williams i wneud penderfyniad efo'r eddi olaf yn bloc H; Deallwyd fod unigolyn wedi bwriadu gwneud gwaith brics mewn bedd newydd ym mynwent MacPelah ei hun yn hytrach na defnyddio un o gontractwyr cydnabyddiedig y Cyngor Cymuned. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu yn ol gydag ef i ddatgan yn ol polisi mynwentydd y Cyngor, mai dim ond contractwyr sy'n gydnabyddiedig i'r Cyngor sydd a hawl gweithredu ym mynwentydd y Cyngor Cymuned; Trefnu arwyddion (tri i MacPelah a thri i Gorphwysfa) Tir Anwastad - Cymrwch Ofal. Trefnu efo Designer Signs ym Mhenygroes; Llwybr 84 Bron Haul - ffens wedi disgyn efo weiran bigog ynddi, a gwair yn tyfu drwyddi. Y polion yn pydru. Gofyn wrth Cyngor Gwynedd am gopi newydd o'r mapiau llwybrau. Eurig yn datgan fod Pwyllgor Ardal Nebo wedi trafod llwybrau Nebo. Roedd pryder fod rhai llwybrau yn cael eu colli oherwydd tyfiant - un esiampl oedd llwybr Bryn Melyn, a bod drain a mieri yn ei gwneud yn amhosib i'w cherdded. Y Pwyllgor ardal am geisio mynd ati i drimio a gweithio eu ffordd drwy llwybrau sydd bron a chau, ac yn meddwl taclio un llwybr y mis.

12. **Materion yn ymwed a'r heddlu.** Dim i'w adrodd.

13. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebau Clerc; Zurich Municipal£1272.96. Derbyn.

14. **Ceisiadau am arian.** Walk for Life - trafod ceisiadau am arian fis Chwefror. **Diolchiadau.** Darllenwyd y diolchiadau.

15. ***Taenlen i'w chymeradwyo.** Cymeradwyo.